



E-GYLCHLYTHYR Gwanwyn 2021

1



Diweddariad TYR

Mae'r gwanwyn wedi dod ac rydym yn siŵr eich bod chi mor falch â ni gyda dyfodiad y dyddiau heulog hirach a'r rhyddid newydd i'w mwynhau.

Er hynny, mae cyfnod y gaeaf wedi bod yn un prysur i ni a'r prosiectau a gyllidir gan yr UE, sydd wedi bod yn gweithio'n arloesol i ddarparu cefnogaeth i unigolion a busnesau y mae'r pandemig yn effeithio arnynt. Gallwch ddarllen am rywfaint o'u gwaith gwych yn y rhifyn mawr yma.

Rydym wedi bod yn datblygu graffeg gwybodaeth newydd i helpu i hyrwyddo'r ystod eang o ddarpariaeth a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sydd ar gael yn y rhanbarth cyn y Diwrnod Cyflogadwyedd ar 30ain Ebrill. Mae nhw ar gael ar ein gwefan ni yma <https://www.sewales-ret.co.uk/cy/infographics/>

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â thîm 3-SET WVCA a Llywodraeth Cymru i alluogi cyflenwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a chyflogaeth ar fframwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddeall y tirlun cyflogadwyedd yng Nghymru yn well.

Mae ein grŵp Arloesi ac Ymchwil ERDF trawsranbarthol wedi elwa o gyflwyniadau ar raglen newydd Horizon Ewrop a sut mae Innovate UK yn sbarduno cynnydd ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn cynllunio mwy o ddigwyddiadau gwybodaeth yn fuan, manylion pellach i ddilyn...

Cadwch yn ddiogel a mwynhewch ddarllen y cylchlythyr!

Lisa, Amy, Natalie a Karyn – RET De Ddwyrain Cymru

Yn y rhifyn hwn

[Diweddariad TYR](#) - Tudalen 1

[Cyllid ôl-UE](#) - Tudalen 2

[Diweddariad CCR](#) - Tudalen 3

[Llyfryn cyflogwyr LIC](#) - Tudalen 3

[WEFO](#) - Tudalen 4

[Perfformiad rhanbarthol](#) -
Tudalen 5

[Cynhwysiant Gweithredol](#) -
Tudalen 5

[Tasglu'r Cymoedd](#) - Tudalennau
6-7

[Wythnos Technoleg Cymru](#) -
Tudalen 8

[Cynllun Turing](#) - Tudalen 8

[Digwyddiadau WCVA](#) - Tudalen 8

[CALIN](#) - Tudalen 9

[Technocamps](#) - Tudalen 10

[Learning to Grow](#) - Tudalen 11

[Jobsense](#) - Tudalen 12

[Her Dechrau Rhywbeth Da](#) -
Tudalen 12

Y camau nesaf ar gyfer cyllid ar ôl gadael yr UE

Ar 3 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion am sut bydd arian i gymryd lle arian yr UE ar gael drwy'r Gronfa Ffyniant a Rennir.

Wedi'i hailfrandio fel y Gronfa Adnewyddu Cymunedol (CRF) ar gyfer blwyddyn beilot 2021-22, bydd y gronfa'n sicrhau bod £220m ar gael ledled y DU i dreialu dulliau gweithredu gyda'r gronfa tymor hwy, y Gronfa Ffyniant a Rennir.

Mae prospectws y CRF ([UK Community Renewal Fund: prospectus - GOV.UK](https://www.gov.uk/government/publications/levelling-up-fund-prospectus)) yn nodi y bydd 90 y cant o'r cyllid yn refferniw ac y bydd yn cefnogi ceisiadau o hyd at £3m. Bydd y gronfa'n canolbwyntio ar sgiliau, busnesau lleol, cymunedau a llefydd, a chyflogaeth, a bydd yn cael ei gweithredu ar sail gystadleuol.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi 100 o lefydd blaenoriaeth ar gyfer y CRF a bydd y gronfa'n cael ei harwain gan awdurdodau lleol y disgwylir iddynt gyhoeddi rhestrau byr o brosiectau cyn canol dydd ar 18 Mehefin. Gallwch canfod y restr yma [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/966987/List of Places A-Z .pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/966987/List_of_Places_A-Z.pdf). Wedyn caiff y ceisiadau eu hasesu gan Weinnyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU, gyda chyhoeddiadau am y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu gwneud ym mis Gorffennaf. Rhaid cwblhau pob prosiect erbyn 31 Mawrth 2022.

Dylai sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid drwy'r CRF gysylltu â'u hawdurdod lleol.


Disgwylir i wybodaeth am y Gronfa Ffyniant a Rennir tymor hir y tu hwnt i flwyddyn beilot y CRF gael ei chyhoeddi gan Lywodraeth y DU ym mis Gorffennaf.

Fel rhan o gyhoeddiad Cyllideb y DU ar 3 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd

fanylion ei Chronfa Lefelu a'i Chronfa Perchnogaeth Gymunedol ledled y DU, a fydd hefyd yn defnyddio pwerau cymorth ariannol Deddf Marchnad Fewnol y DU i wario yng Nghymru.

Bydd y Gronfa Lefelu yn cael ei harwain gan awdurdodau lleol ac yn sicrhau bod o leiaf £800m ar gael rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y cyllid

Levelling Up Fund: Priority areas
Priority group by local authority



yn canolbwyntio ar Ddrafnidiaeth, Adfywio a Buddsoddi Diwylliannol, a bydd yn cefnogi prosiectau hyd at £20m, gyda'r potensial i gynyddu i £50m ar gyfer prosiectau trafndiaeth. Gallwch canfod y prospectws yma <https://www.gov.uk/government/publications/levelling-up-fund-prospectus>.

Bydd y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn darparu arian cyfatebol i alluogi grwpiau cymunedol i brynu asedau lleol neu berchnogi cyfleusterau lleol sydd mewn perygl o gael eu colli. Bydd y ceisiadau'n agor erbyn mis Mehefin, pan fydd prospectws ymgeisio'n cael ei gyhoeddi.

Mae rhagor o wybodaeth am bob un o'r cronfeydd ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol i Gymru Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys rhanddeiliaid o lywodraeth leol, y sectorau AU/AB a'r trydydd sector, a busnes, ar 24 Mawrth, a chyhoeddir cofnodion a phapurau ar gyfer y Grŵp hwn, yn ogystal â'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol i Gymru, ar wefan Llywodraeth Cymru er gwybodaeth.

Diweddariad CCR

Cynllun Graddedigion

Ym mis Ionawr, er bod lefel ddigynsail o ansicrwydd yn parhau i reoli'r amgylchedd busnes, croesawodd y cynllun ei grŵp mwyaf hyd yma. Mae wedi parhau i ymgysylltu â busnesau yn rhithwir, gan weithio gyda Global Welsh yn edrych ar werth rhwydweithio, a chynnal gweithdy gydag Adeiladwr Busnes Natwest. O safbwynt graddedigion, mynychodd y Cynllun Ffair Gyrfaoedd Rithwir Cymru Gyfan yn gynharach y mis hwn hefyd, gan ymgysylltu â miloedd o fyfyrwyr ac arddangos y rhanbarth fel cyrchfan i roi cychwyn i'w gyrfa fel graddedigion.

Cronfa Her

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Gronfa Her wedi bod ar agor ar gyfer ceisiadau Mynegi Diddordeb, a fydd bellach yn cael eu hasesu gyda'r bwriad o gadarnhau'r Her gyntaf erbyn Ebrill 20fed. Bydd gweithdai wedyn yn ailddechrau drwy gydol misoedd yr haf i helpu gyda mynegi diddordeb pellach ar gyfer themâu her newydd. I gael rhagor o wybodaeth am y themâu a'r broses edrychwch ar <https://www.cardiff.ac.uk/cy/innovation/our-partnerships/cardiff-capital-region-challenge>.

Cronfa Tai

Daeth y cyfnod ymgeisio ar gyfer Cartrefi i'r Rhanbarth i ben ym mis Ionawr a derbyniwyd 18 o geisiadau ar draws naw o'r deg awdurdod lleol. Roedd nifer y cyfleoedd a nodwyd yn

sylweddol uwch na'r disgwyliadau. Bydd llythyrau dyfarnu cyllid yn cael eu hanfon at ymgeiswyr llwyddiannus cyn bo hir.

Y Ffowndri

Mae'r ffowndri lled-ddargludyddion cyfansawdd newydd yng Nghasnewydd yn llwyddiant ac fel yr adroddwyd yn flaenorol mae'r cyfleuster bellach yn cynhyrchu ac yn rhagori ar ddisgwyliadau o ran swmp ac ansawdd. Mae wedi creu 110 o swyddi gwerth uchel newydd - mae 95% ohonynt yn y CCR, ac wedi diogelu 546 o swyddi presennol. Bu buddsoddiad pellach hefyd, fel y £50M a fuddsoddwyd yn CSA Catapult (70 o swyddi) sydd wedi'i gydleoli gyda'r Ffowndri.

Zip World



Mae'r prosiect newydd hwn yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd gyda gwifren wib Phoenix a'r Tower Coaster i agor ddiwedd y gwanwyn (yn amodol ar reoliadau covid-19). Mae gwifren wib Phoenix yn cael ei phrofi ar hyn o bryd ar gyfer diogelwch ac mae'r Tower Coaster wrthi'n cael ei adeiladu.

Llyfryn Cyflogwyr Llywodraeth Cymru



Mae gwybodaeth am ymgyrch cyflogwyr Llywodraeth Cymru - 'Yn Gefn i Chi' – ar gael nawr ar ei gwefan ac mae'r manylion yn y llyfryn newydd sydd ar gael yma <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/yn-gefn-i-chi>.

Wedi'i chynnwys mae gwybodaeth am raglenni amrywiol Llywodraeth Cymru gan gynnwys pecyn adnoddau i gyflogwyr i wella cyfleoedd ac amodau cyflogaeth ar gyfer pobl ag anabledd.

WEFO

Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 yng Nghymru: Effaith a manteision i bobl, cymunedau a busnesau Cymru

Mae WEFO newydd gyhoeddi llyfryn newydd sy'n dathlu cyflawniadau a manteision rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer cylch rhaglennu cyfredol 2014-2020 ar gyfer pobl, cymunedau a busnesau Cymru. Mae'r llyfryn yn cynnwys nifer o brosiectau ac astudiaethau achos sy'n amlygu'r llwyddiannau hyn a'r ystod eang o brosiectau a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE ledled Cymru; o ymchwil ac arloesi blaengar, cymorth busnes hanfodol, seilwaith newydd ac adfywio canol trefi, i wella sgiliau a rhagolygon cyflogadwyedd pobl Cymru. Gallwch ddarllen y llyfryn yma <https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-effaith-manteision-i-bobl-cymunedau-busnesau-cymru>.

Cwestiynau Cyffredin am Gyfnod Pontio Gadael yr UE ac ar Ôl Pontio

Mae canllawiau a chyngor wedi'u diweddu ar Gyfnod Pontio Gadael yr UE a'r Cyfnod ar Ôl Pontio ar gyfer rheolwyr prosiect ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r diweddiariad hwn yn rhoi sylw i'r gofynion ôl-bontio mewn perthynas â Chymorth Gwladwriaethol a chaffael, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Chynllun Preswyllo'n Sefydlog yr UE. Gallwch ddarllen y canllawiau yma <https://llyw.cymru/y-cyfnod-pontio-ar-cyfnod-ar-ol-pontio-ymadael-ar-ue-rhaglenni-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-20>.

Cwestiynau Cyffredin am effaith y Coronafeirws

Mae cyngor ac arweiniad wedi'u diweddu ar y coronafeirws (COVID 19) ar gyfer rheolwyr prosiect sy'n darparu prosiectau a gyllidir gan yr UE yn ystod y cyfnod heriol hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd yma <https://llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-cwestiynau-cyffredin-ar-effaith-y-coronafeirws>. Cofiwch wirio'r wefan am yr

wybodaeth ddiweddaraf.

Etholiadau'r Senedd

Gydag etholiadau'r Senedd i fod i gael eu cynnal ar 6 Mai, edrychwch isod am gyngor ar gyfer arweinwyr / buddiolwyr prosiectau Cronfeydd Strwythurol yr UE, a hefyd cadarnhad o weithrediadau WEFO yn ystod y cyfnod cyn etholiad Llywodraeth Cymru (yn dechrau am 0:00 awr ar 25 Mawrth 2021 tan 23:59 awr ar 6 Mai 2021).

Gall cyhoeddusrwydd / gweithgarwch hyrwyddo sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno prosiectau a gyllidir gan yr UE (sydd eisoes wedi derbyn cyllid cymeradwy ac wedi'i gyhoeddi) barhau e.e. defnyddio brand / logo Llywodraeth Cymru a'r UE ar wefannau ac eitemau hyrwyddo bychain; prosiectau'n cynnal digwyddiadau gwybodaeth / rhwydweithio i gyfranogwyr yn hybu eu prosiect. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn weithgarwch busnes o ddydd i ddydd ac yn cydymffurfio â thelerau'r cyllid. **Fodd bynnag, ni ddylai prosiectau hyrwyddo eu cyllid yn benodol yn ystod y cyfnod hwn.**

Bydd cyhoeddiadau am gyllid newydd neu ychwanegol ac unrhyw hyrwyddo cysylltiedig yn cael eu gohirio. Ni fydd unrhyw brosiectau sydd wedi cael cyllid wedi'i gymeradwyo, a WEFO heb gyhoeddi'r cyllid hwnnw, yn hyrwyddo hyn yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Bydd y rhai a all gael cymeradwyaeth yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad yn ei derbyn dan embargo ac ni ddylent ei hyrwyddo yn ystod y cyfnod hwn.

Parthed gweithgarwch ymchwil, ydd prosiectau a arweinir gan Lywodraeth Cymru yn gohirio eu gweithgarwch yn ystod y cyfnod hwn (mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ar yr hyn ddylid ei ohirio ac unrhyw eithriadau). Dylai pob buddiolwr arweiniol arall ddilyn ei ganllawiau ei hun ar sut i fwrw ymlaen yn ystod etholiad o ran pa weithgareddau all barhau. **Nid** ydym yn rhoi cyfarwyddyd i chi i roi'r gorau i weithgarwch caffael neu ymchwil.

Os oes unrhyw ymholiadau gennych, cysylltwch â WEFO Cyfarthrebiadau ar wefo-communications@gov.wales

Perfformiad rhanbarthol

Dyma'r prif ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer perfformiad y gweithrediadau a gyllidir gan ESI yn Rhanbarth y De Ddwyrain. Os hoffech chi gael rhagor o fanylion am y data, anfonwch e-bost atom ar sewalesret@bridgend.gov.uk.

Cronfa	Dangosydd	Ffigurau ar gyfer Rhanbarth y De Ddwyrain
ERDF	Mentrau a gynorthwywyd	4,724
	Mentrau a grëwyd	1,473
	Swyddi a grëwyd	8,664
ESF	Cyfranogwyr a gynorthwywyd	116,964
	Cyfranogwyr a gefnogwyd i gyflogaeth	14,675
	Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau	52,222
	Cyfranogwyr mewn addysg / hyfforddiant	3,477

Cynhwysiant Gweithredol

Efallai bod cyllid Ewrop yn dod i ben, ond mae cyfle o hyd i elwa o gyllid Cynhwysiant Gweithredol.

Fedr eich sefydliad chi gynnal prosiect sy'n darparu lleoliadau gwaith â thâl, gyda chymhorthdal sy'n helpu pobl sy'n ddi-waith i fod yn fwy cyflogadwy? Neu brosiect 'ymgysylltu' arbenigol a all helpu'r rhai sydd bellaf oddi wrth gyflogaeth i gymryd y camau cyntaf tuag at swydd?



Efallai bod lleoliadau gwaith â thâl yn swnio'n debyg i gynllun Kickstart y DU, ond maent yn agored i bobl 25 oed a hŷn, yn ogystal â phobl ifanc, ac er bod uchafswm cyfnod y lleoliad yr un fath, yn chwe mis, mae llawer mwy o hyblygrwydd yn gysylltiedig o ran yr oriau sydd i'w gweithio a faint o gymorth y gellir ei ddarparu cyn dechrau'r gwaith cyflogedig.

Fel cyllid Ewrop, mae gofyniad anochel i ddarparu cyllid cyfatebol, ond mae hyn yn

amrywio yn ôl ardal a grŵp oedran. Ar gyfer cyfranogwyr 25+ oed yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, bydd y cyllid yn talu o leiaf 90% o gyfanswm y costau.

'Rhan dau' y broses ymgeisio yw cyllid y prosiect, a'r rhan gyntaf yw profi eich cymhwysedd – a gellir cael mynediad at y ddwy ran drwy'r Porth Aml-Gais (MAP) yn <https://map.wcva.cymru>. Ar ôl i chi fynd drwy'r cam cyntaf, byddwch ar 'restr buddiolwyr cymeradwy' y WCVA ac yn cael gwahoddiad awtomatig i wneud cais i'r cynllun Cynhwysiant Gweithredol cyn gynted ag y bydd y cylch ar agor.

Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch a yw hwn ar eich cyfer chi, beth am gysylltu â'r Tîm Cynhwysiant Gweithredol ar activeinclusion@wcva.cymru neu eu ffonio ar 0300 111 0124 a byddant yn trefnu i rywun siarad gyda chi dros y ffôn neu drwy gynhadledd fideo. Mae'r WCVA, fel 'corff cyfryngu' ar gyfer Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), yn cyflogi staff i'ch cefnogi a'ch arwain chi drwy'r broses o gadw cofnodion a gwneud hawliadau, yn ogystal â phob cam o'r broses ymgeisio.

Mae diweithdra ar gynydd yng Nghymru, ond mae prosiectau a gyllidir gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol y WCVA yn ymladd yn ôl fel y gwelir yn y [fideo](https://wcva.cymru/cy/cyllid/y-gronfa-cynhwysiant-gweithredol/) yma. Ewch i'w gwefan i gael rhagor o wybodaeth: <https://wcva.cymru/cy/cyllid/y-gronfa-cynhwysiant-gweithredol/>

Tasglu'r Cymoedd



Yn 2016 sefydlwyd Tasglu'r Cymoedd i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud y Cymoedd yn lle gwyh i fyw a buddsoddi ynddo. Roeddem eisiau i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd deimlo'n gadarnhaol am y dyfodol a sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau'r Cymoedd o ansawdd da, yn hawdd eu cyrraedd a bod pobl yn teimlo eu bod mewn cysylltiad â'r dirwedd drawiadol ar garreg eu drws.

Ers hynny, mae'r Tasglu wedi buddsoddi mwy na £30 miliwn yn y Cymoedd. Mae dadansoddiad o'r buddsoddiad wedi'i gynnwys ar y dudalen nesaf.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith enfawr ar waith y Tasglu ac rydym wedi addasu ein cyllid i gefnogi'r problemau unigryw sy'n wynebu cymunedau rhanbarth cymoedd de Cymru.

Ym mis Tachwedd 2020 gwahoddodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yr Awdurdodau Lleol i wneud cais am gyfran o £3m o gyllid ar gyfer trefi llai nad ydynt yn cael eu targedu'n draddodiadol drwy gyllid adfywio. Ffocws y cyllid yw cefnogi'r effaith mae Covid-19 wedi'i chael yn yr ardaloedd hyn a fydd yn hwyluso masnachu a diogelwch y cyhoedd fel ymateb i Covid-19.

Fel rhan o'r cyllid hwn mae pedwar hwb gweithio o bell yn cael eu datblygu ar draws Rhondda Cynon Taf (Llys Llwynypia ac RHA) a CBS Caerffili (Winding House a Thŷ

Penallta). Gall cyflogeion y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddefnyddio'r manau hyn ac maent yn helpu partneriaethau newydd rhwng diwydiant, Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac eraill. Mae'r cyfleusterau lleol hyn yn cynnig dewis yn lle gweithio gartref heb ddychwelyd i batrwm cymudo traddodiadol.



Mae dau hwb arall yn cael eu datblygu hefyd fel rhan o Borth Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn Llyn Llech Owain, Caerfyrddin a Pharc Bryn Bach, Blaenau Gwent. Bydd yr hybiau wedi'u hymgorffori ym mhob parc ac wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r amgylchedd naturiol. Bydd Wi-Fi, dodrefn swyddfa a chyfleusterau eraill y parciau ar gael i ddefnyddwyr, yn ogystal â chyfle i elwa o seibiant ym myd natur.

Y mis yma, cyhoeddodd y Tasglu ei adroddiad terfynol. Gallwch weld yr adroddiad llawn yma – <https://llyw.cymru/tasglur-cymoedd>.

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y rhaglen hon, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen am i allbynnau'r tasglu fynd ymhell y tu hwnt i dymor y llywodraeth yma. Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori ein gwaith yn y cynlluniau tymor hir ar gyfer Llywodraeth Cymru a thrwy weithio mewn partneriaeth. Mae'r tasglu wedi trafod y blaenoriaethau strategol yn ein barn ni y dylai unrhyw raglen gyflawni yn y dyfodol ganolbwyntio arnynt. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u nodi'n glir i lywodraeth newydd eu hystyried.

Gan Dîm Rhaglen Tasglu'r Cymoedd

Ein Cymoedd, Ein Buddsoddiad

Crynodeb o gyfraniad y Tasglu ers 2016



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru fuddsoddi **£12m** yn y Grant Cartrefi Gwag. Derbyniwyd **dros 600 o gelsiadau** ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag.



Fe wnaeth dros **600 o bobl** o bob rhan o'r cymoedd ddod i ddigwyddiadau'r Tasglu a oedd yn canolbwyntio ar faterion cymunedol lleol, trafniadaeth, cymorth busnes a thirwedd a'r amgylchedd.

Buddsoddwyd **£100,000** i ehangu cynllun peilot Big Bocs Bwyd i'r cymoedd. Bydd gan bum ysgol gynwysyddion Big Bocs Bwyd a fydd yn rhoi bwyd i deuluoedd ac yn datblygu llythrennedd bwyd.

£7m wedi'i fuddsoddi i ddatblygu 12 Porth Darganfod ar draws y Cymoedd.



Darparwyd **£200,000** yr un i Ferthyr Tudful, Caerffili a Phontypridd i ddatblygu canolfannau trafniadaeth integredig uchelgeisiol.

Buddsoddwyd **£250,000** mewn cynllun teithio ymatebol integredig dan arweiniad Trafniadaeth Cymru ym Mlaenau Gwent.

£39,000 wedi'i fuddsoddi mewn rhwydwaith cymheiriaid gan ddod â 10 sylfaenydd busnes yn y Cymoedd at ei gilydd i gynnig cefnogaeth i'w gilydd a hybu cadernid.



Darparwyd **£2.4m** i gefnogi 27 o brosiectau arbrofol â'r nod o gryfhau'r economi sylfaenol.

Buddsoddwyd **£650,000** i ail-ddatblygu Neuadd y Dref Maesteg.



Gwnaeth **9 awdurdod lleol** gais am hyd at **£3m** o gyllid i gefnogi canol trefi llai i adfer ar ôl COVID. Crëwyd pedwar man gweithio o bell i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i alluogi 30% o bobl yng Nghymru i weithio'n agosach i'w cartrefi.

Buddsoddwyd **£170,000** i ddatblygu canolfannau gweithio o bell yn Llyn Llech Owain a Pharc Bryn Bach.

Mae Tasglu'r Cymoedd wedi helpu mwy na **7000 o bobl** i gael gwaith.



Mae **£75,000** wedi'i fuddsoddi yn natblygiad cynllun Cyn-ddisgyblion arbrofol ar gyfer 10 ysgol uwchradd yn ardal y Tasglu. Mae **230 o gyn-fyfyrwyr** yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu rhwydweithiau gyda'u cyn-ysgolion - gan gynnig cymorth ac arweiniad. Gall ysgolion uwchradd ledled Cymru gael pecyn cymorth, a ddatblygwyd gan Future First, i'w cefnogi i ddatblygu eu cynllun cyn-ddisgyblion eu hunain a helpu pobl ifanc i gael y dechrau gorau i'w gyrfaedd yn y dyfodol.

Sicrhodd Dog Furiendly, busnes yn y Cymoedd, fuddsoddiad o **£75,000** gan syndicet o fuddsoddwyr angylion o dde Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru yn dilyn digwyddiad ar ffurf Dragons' Den a gynhaliwyd gan Dasglu'r Cymoedd mewn partneriaeth â Creu Sbarc.

£1.28m wedi'i fuddsoddi i ddatblygu prosiect diwylliant a threftadaeth byd-enwog yng Nghastell Cyfarthfa.

Cyhoeddi dyddiadau Wythnos Technoleg Cymru ar gyfer 2021



Yn dilyn llwyddiant Wythnos Technoleg gyntaf Cymru y llynedd, cadarnhawyd y bydd y digwyddiad yn cael ei ailadrodd ar raddfa fwy fyth. Bydd y digwyddiad am ddim, sydd wedi'i sefydlu gan Technology Connected, yn cael ei gynnal rhwng 21^{ain} a 25^{ain} Mehefin 2021, gan

ddod â ffigurau blaenllaw yn y gymuned dechnoleg fyd-eang at ei gilydd. Bydd y digwyddiad rhithwir yn cael ei gynnal ar nifer o 'blatfformau' drwy gydol yr wythnos, yn cynnwys gweithdai rhyngweithiol, sgysiau a sesiynau panel ar ystod eang o bynciau gan gynnwys Seiber, AI, Data, Amrywiaeth a Chydraddoldeb, Fintech, Buddsoddi, MedTech, Sgiliau a Diwydiannau Creadigol.

Bydd y digwyddiad yn arddangos rhywfaint o'r arloesedd a gydnabyddir yn eang sy'n digwydd yn niwydiant technoleg ffyniannus Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Technology Connected: <https://technologyconnected.net/wales-tech-week/>

Cynllun Turing

Ddiwedd mis Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd rhaglen newydd, Cynllun Turing, yn cymryd lle cyfranogiad y DU yn Erasmus+. Bydd yn darparu cyllid ar gyfer lleoliadau a chyfnewidfeydd sy'n dechrau ym mis Medi 2021. Bydd y cynllun newydd yn cael ei weinyddu gan yr un bartneriaeth, sef y Cyngor Prydeinig ac Ecorys, sydd wedi bod yn darparu Erasmus+ yn y DU ers nifer o flynyddoedd. Gallwch ddarllen mwy o fanylion ar wefan y cynllun <https://www.turing-scheme.org.uk/>.

Mae'r DU yn parhau i gymryd rhan lawn yn rhaglenni Erasmus+ a Chorfflu Cydsefyll

Ewrop 2014-2020 a bydd y prosiectau y gwnaed cais llwyddiannus amdanynt yn ystod y rhaglenni hyn yn parhau i dderbyn cyllid yr UE drwy gydol y prosiect. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan Asiantaeth Genedlaethol Erasmus+ y DU: <https://www.erasmusplus.org.uk/the-transition-period>



Digwyddiadau i ddod gan y WCVA

Ochr yn ochr â phartneriaid - SCVO, NICVA, NCVO a Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit - bydd y WCVA yn cynnal dau sesiwn ar y cyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi digwydd ers i ni adael yr UE yn ffurfiol. Bydd y sesiynau'n galluogi i sefydliadau drafod pa feysydd sy'n bwysig iddynt ar ôl i ni adael yr UE a sut gall y sector leoli ei hun i ddylanwadu ar strwythurau a sefydliadau perthnasol ac ymgysylltu â hwy

yn y dyfodol.

Bydd y cyntaf, ar 14 Ebrill, yn canolbwyntio ar Gymru a bydd yr ail, ar 23ain Ebrill, yn edrych ar bob gwlad yn y DU.

Gallwch gofrestru ar gyfer y ddau ddigwyddiad drwy ddilyn y dolenni canlynol:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/life-after-eu-membership-what-next-for-the-third-sector-in-wales-tickets-144990928771>

<https://www.eventbrite.co.uk/e/life-after-eu-membership-what-next-for-civil-society-in-the-uk-tickets-146638739417>

Newyddion y prosiectau: Rhwydwaith Arloesi Gwyddoniaeth Bywyd Uwch Celtaidd (CALIN)

Mae CALIN yn rhan o raglen INTERREG Cymru-Iwerddon sy'n cael ei hariannu gan ERDF. Mae'n cysylltu busnes, y byd academiaidd a gofal iechyd ag arbenigwyr o chwe phrifysgol flaenllaw yng Nghymru ac Iwerddon ac yn gyfle i ymwneud ag arweinwyr ym maes gwyddoniaeth feddygol a fferyllol uwch, nanotechnoleg a biotechnoleg

Astudiaeth achos

Mae TRINIAETHAU TARGEDU AFIECHYDON yn cael eu datblygu yn erbyn pob math o salwch, gan gynnwys cancer, gan ddefnyddio gwrthgyrff defaid.

Er bod cyffuriau wedi'u datblygu i drin cancer, bacteria a feirysau, nid ydynt yn gallu targedu safleoedd penodol yn y corff. Mae cemotherapi, er enghraifft, yn targedu celloedd iach yn ogystal â chelloedd cancer, sy'n gallu arwain at sgil-ffeithiau fel colli gwallt. Ond mae gwyddonwyr yn credu eu bod wedi dod o hyd i ffordd o ddatrys hyn

gan ddefnyddio gwrthgyrff sy'n rhan o'n system imiwnedd.

"Mae dod o hyd i wrthgyrff penodol sy'n clymu i darged dethol yn her debyg i chwilio am nodwydd mewn tas wair enfawr," meddai'r Athro Arwyn Jones o Brifysgol Caerdydd. "Fodd bynnag, gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio technegau bioleg foleciwlaidd a feirws diniwed sy'n cael ei ddefnyddio i heintio bacteria sydd wedyn yn gweithredu fel ffatrïoedd cynhyrchu gwrthgyrff."

Mae IG Innovations yn Llandysul, sy'n cynhyrchu gwrthgyrff mewn defaid, wedi cydweithio â Phrifysgol Caerdydd drwy CALIN i weithio ar y prosiect hwn. Defnyddir defaid am eu bod yn cynhyrchu ystod eang o wrthgyrff o ansawdd uchel. Gan fod y cod genetig ar gyfer pob gwrthgyrff yn hysbys, bydd hyn yn galluogi i ymchwilyr adnabod yn enetig y mathau sy'n clymu wrth darged dethol. Felly, gyda chanser, byddai'r gwrthgyrff yn ymuno â'r cyffur cemotherapi ac yn targedu'r celloedd cancer penodol yn unig, nid y celloedd iach.

Y gobaith yw y byddant yn gallu eu gweithgynhyrchu ar raddfa lawer mwy ac, o bosib, yn gallu eu cynnig fel endidau therapiwtig neu ddiagnostig newydd.



Newyddion y prosiectau: Technocamps yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched



Gan adeiladu ar waddol ITWales, cynhaliodd Technocamps ddigwyddiad dathlu blynyddol i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched ddydd Llun 8 Mawrth 2021.

Croesawodd y digwyddiad rhithwir fwy na 100 o gyfranogwyr i'r dathliad. Mae'r noson fel rheol yn cynnwys gwesteion yn teithio o bob rhan o'r wlad i'w mynychu. Er bod eleni'n edrych ychydig yn wahanol, manteisiwyd i'r eithaf ar y dechnoleg sydd ar gael a chynhaliwyd gweminar.

Roedd eleni'n nodi 21 o flynyddoedd ers y digwyddiad cyntaf sy'n canolbwyntio ar ferched ym maes STEM. Y thema oedd 'Dewis Herio: Cydraddoldeb Rhywiol ym maes STEM'. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys y canlynol:

- Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru
- Jacqueline de Rojas CBE, Llywydd techUK a Chydgadeirydd y Sefydliad Codio
- Gwen Parry-Jones OBE, Prif Weithredwr Magnox Ltd
- Nia M Davies, Pennaeth Addysg BBC Cymru Wales

I ddechrau'r noson, clywsom gan Swyddogion Cyflawni Technocamps, Nia, Rama, Lauren, Catherine, Teri a Laura, a drafododd eu profiadau fel merched ym maes STEM a sut maent yn credu y gallwn herio'r status quo.

“Os ydych chi eisiau newid y byd, ewch i faes Technoleg” – Dr Catherine Teehan, Technocamps

Trafododd Kirsty Williams AS ddyfodol addysg yng Nghymru a sut gallwn ailadeiladu'n well yng Nghymru ar ôl COVID:

“Rydym wedi gwneud cynnydd mawr i addasu cydraddoldeb rhywiol ym maes STEM... ond mae llawer iawn i'w wneud eto a llwybr hir o'n blaen”

Roedd sgwrs Jacqueline de Rojas yn tynnu sylw at gyflawniadau merched ym maes STEM, pa mor bell mae cydraddoldeb rhywiol wedi dod a faint yn rhagor sydd i'w gyflawni:

“Os ydych chi'n credu nad yw amrywiaeth yn bwysig neu nad eich problem chi yw hon i'w datrys, dewiswch yrfa ym maes technoleg, gwyddoniaeth gyfrifiadurol a'r byd digidol fel eich bod yn gallu dod yn rhan o'r ateb.”

Rhoddodd Gwen Parry-Jones wers i ni ar Ffiseg Niwclear, stereoteipio a phwysigrwydd cydraddoldeb rhywiol:

“Nid opsiwn yw amrywiaeth a chynhwysiant, maen nhw'n gwbl hanfodol.”

Daeth y noson i ben gyda sesiwn ysbrydoledig gan Nia M Davies, a drafododd ei llwybr gyrfa a'r her o greu cynnwys diddorol ac addysgiadol i blant Cymru yn ystod y cyfyngiadau symud:

“Mae creu'r cynnwys gorau posib i ddysgwyr gyda'r nod o drawsnewid eu bywydau yn gyfrifoldeb rwy'n teimlo'n freintiedig i'w ysgwyddo.”



Newyddion y prosiectau: Learning to Grow

Addasu gwasanaethau yn ystod y pandemig



Mae Learning to Grow yn gweithio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl, awtistiaeth ac anableddau dysgu, sy'n ddi-waith tymor hir. Mae'r prosiect yn helpu cyfranogwyr i adeiladu sgiliau newydd sy'n gysylltiedig â gwaith trwy arddwriaeth ymarferol, gwaith coed, TG a gweithgareddau crefft. Mae COVID 19 wedi cael effaith enfawr ar eu bywydau ac mae'r prosiect wedi addasu ei wasanaethau i roi cymaint o opsiynau â phosib i'w gyfranogwyr i'w cadw mewn cysylltiad, yn ymgysylltu ac yn feddyliol gadarn.

Yn ystod wythnosau cyntaf y cyfyngiadau symud, tynnodd adborth gan lawer o gyfranogwyr sylw at eu pryder a'u hofnau cynyddol am ansicrwydd a sut roeddent yn mynd i ymdopi. Felly sefydlodd y prosiect gysylltiadau cyfathrebu newydd, teilwredig:

- Cyswllt dyddiol dros y ffôn a chefnogaeth i gael mynediad at gyfathrebu ar-lein
- Cyfeirio at wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth neu ostyngiadau yn ystod y cyfnod hwn
- Grwpiau WhatsApp i gynnig cymuned ar-

lein a arweinir gan gyfoedion

- Sesiynau Zoom fel gwersi coginio. Cyflwynwyd hyfforddiant ar-lein a'i ddarparu ar y platfform hwn gyda chefnogaeth gan Dysgu Oedolion Cymru
- Cylchlythyr Wythnosol a oedd yn cynnwys awgrymiadau lles ar gyfer yr wythnos i ddod
- Pecynnau gweithgarwch a ddosberthir yn wythnosol
- Sianel YouTube Growing Space <https://www.youtube.com/channel/UCr9eK41QvYflgiYrfruBrpg>
- Diweddariadau rheolaidd ar eu cyfryngau cymdeithasol a'u gwefan
- Mwy na 500 o daflenni gwaith addysgol a lles wedi'u hanfon at gyfranogwyr ar e-bost neu drwy'r post.

Cysylltu â Natur

Mae staff y prosiect wedi bod yn dosbarthu planhigion ifanc a hadau i gyfranogwyr hefyd, gan eu hannog i arddio. Mae pecynnau bocs adar hawdd ei osod at ei gilydd wedi cael eu dosbarthu, ynghyd â thaflenni gwaith ar adnabod adar yr ardd, gwneud teclynnau bwydo adar syml ac ati. Anogwyd y cyfranogwyr i gadw cofnodion, tynnu lluniau a rhannu gwybodaeth am eu canfyddiadau. Trefnwyd teithiau cerdded un i un a llwybrau natur i helpu'r rhai sy'n cael anhawster gydag unigedd. Mae'r amserlen gwbl weithredol yn parhau i ddatblygu, ac mae gweithgareddau newydd yn cael eu hychwanegu bob wythnos.



Newyddion y prosiectau: JobSense



Mae JobSense yn gweithio gyda phobl sydd â nam ar eu synhwyrâu i hyrwyddo eu doniau yn y farchnad swyddi bresennol ac i ddod o hyd i atebion i rwystrau cyffredin wrth chwilio am swyddi i'w galluogi i sicrhau cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth â thâl.

Mae 1 o bob 5 oedolyn yn y DU yn fyddar neu â nam ar y clyw.

Dim ond 27% o bobl ddall a rhannol ddall sydd mewn cyflogaeth.

Mae JobSense yn deall pwysigrwydd goresgyn rhwystrau y gall pobl â nam ar eu synhwyrâu eu hwynebu yn y gwaith. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau eu bod yn cael cymorth i recriwtio'n llwyddiannus

bobl sydd wedi colli eu clyw neu eu golwg i'w sefydliadau mewn ffordd hygyrch a chynaliadwy.

Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae JobSense ar agor ar gyfer atgyfeiriadau. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud o bell ond gallant gefnogi gyda sgiliau digidol. Rhaid i gyfranogwyr fod dros 25 oed a byw yn un o'r ardaloedd canlynol: Caerdydd, Casnewydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Powys, Wrecsam, a Sir y Fflint. Rhaid i'r cyfranogwyr fod yn ddi-waith yn y tymor hir (12 mis neu fwy) neu'n economaidd anweithgar.

Cysylltwch â nhw ar info@jobsense.org.uk neu 07442 998297 neu ewch i'w gwefan yn www.jobsense.org.uk

Mae JobSense yn bartneriaeth rhwng RNID, COS ac ELITE.



Her Dechrau Rhywbeth Da – AR AGOR NAWR!



Mae Syniadau Mawr Cymru wedi lansio **her Menter Gymdeithasol Dechrau Rhywbeth Da** 2021 ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed sy'n byw yng Nghymru.

Yr her yw meddylwch am ateb i rywbeth fyddai'n cael effaith bositif/gadarnhaol ar bobl o'ch amgylch neu yn eich cymuned - syniad busnes cymdeithasol newydd!

Mae dau gategori oedran: 11-16 (16 ac iau) ac 16-18 (16-18). Bydd yr enillwyr rhanbarthol ym mhob categori yn derbyn £100 i'w roi i fenter gymdeithasol neu elusen lleol o'u dewis, yn ogystal â hwdis Syniadau Mawr Cymru! Bydd un syniad buddugol (yng nghategori 16-18 mlwydd oed) yn derbyn hyd at £200, yn ogystal â chefnogaeth mentora i'w galluogi i ddatblygu eu syniad busnes.

Rhaid i'r ceisiadau gyrraedd erbyn 6pm Dydd Mercher 28ain Ebrill 2021.

Am fanylion pellach am sut i ymgeisio, yr amserlen, adnoddau defnyddiol a llawer mwy ewch i www.syniadaumawr.cymru/dechraurhywbethda

Twitter: @SyniadauMawrCym

Instagram a Facebook:
@SyniadauMawrCymru